PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

21 Windsor Place, Cardiff CF10 3BY
21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY
02920 342 434

30 Ionawr 2024

Annwyl Mr Miles,

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch oherwydd eich bod yn ymgeisydd i fod yn Brif Weinidog nesaf Cymru. Hoffem eich llongyfarch ar eich enwebiad ar gyfer y rôl nodedig hon, a dymunwn yn dda i chi yn yr etholiad sydd i ddod.

Plant yng Nghymru yw'r corff cenedlaethol trosfwaol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Rydyn ni'n gweithio i chwyddo llais ein haelodau trwy ein gwaith polisi, a llais pobl ifanc yn uniongyrchol trwy Cymru Ifanc, ein hadran cyfranogiad ieuenctid. Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae holl hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cyflawni. Rydyn ni'n sicr y byddwch chithau'n rhannu'r weledigaeth honno, ac rydyn ni'n ysgrifennu atoch â chynnig a luniwyd i sicrhau bod plant yn gallu galw Llywodraeth Cymru i gyfrif am gynnydd at y nod terfynol hwnnw.

Un o dasgau cyntaf Prif Weinidog nesaf Cymru fydd penodi ei gabinet newydd. Mae'r broses honno'n gyfle i adolygu personél ac aelodaeth y cabinet presennol, yn ogystal â dyraniad portffolios a theitlau gweinidogol. Mae hefyd yn gyfle i ystyried ble gellid gwneud newidiadau i gryfhau atebolrwydd a gwneud addasiadau sy'n ymateb yn well i anghenion a galwadau'r boblogaeth, gan gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rydyn ni'n credu y dylai **penodi Gweinidog Plant penodol, dynodedig** i gabinet Llywodraeth Cymru fod yn flaenoriaeth i Brif Weinidog nesaf Cymru. Yr hyn rydyn ni'n ei olygu wrth hynny yw gweinidog penodol sydd â chyfrifoldeb am fabanod, plant, a phobl ifanc fel y cydnabyddir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Ar wahân i dymor cyntaf oll y Senedd, dyma'r cyfnod cyntaf yn hanes Llywodraeth Cymru pan nad oes gweinidog penodol ar gyfer plant yn y cabinet. Ar hyd y rhan fwyaf o'r cyfnod rhwng ail a phumed tymor y Senedd (2003-21), bu gweinidog penodol yn Llywodraeth Cymru, a bu'r gair 'plant' yn rhan o deitl o leiaf un aelod o'r cabinet.



Registered Charity Number: 1020313 A company limited by guarantee registered in Wales: 2805996 Rhif Elusen Gofrestredig: 1020313 Cwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru:

Mae'r angen am Weinidog Plant penodol, amlwg wedi cael cryn dipyn o sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, yn ystod archwiliad diweddar Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â CCUHP, bu plant a phobl ifanc, yn ogystal â sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru, yn mynegi pryderon nad yw 'plant' yn rhan o deitl unrhyw Weinidog yng Nghymru, yn wahanol i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Byddai ailosod cyfrifoldeb am blant yn eglur yn nheitl rôl gweinidog cabinet yn ffordd rymus o atgoffa pawb bod hawliau a llesiant plant yn cael lle blaen canolog ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Byddai'n rhoi sicrwydd, y mae mawr angen amdano, yn uniongyrchol i blant, nad oes gan lawer ohonynt lais na phleidlais, ac sydd yn gwbl ddibynnol ar oedolion i wneud y penderfyniadau cywir i'w galluogi i dyfu a ffynnu, bod y materion sy'n bwysig iddyn nhw yn cael gwrandawiad a blaenoriaeth.

Yn ogystal â bod yn arweinydd dynodedig ar gyfer plant, gyda throsolwg o bob maes polisi sy'n effeithio ar fabanod, plant a phobl ifanc, ac atebolrwydd amdanynt, rydyn ni am weld y gweinidog dan sylw yn cael cyfrifoldeb am gydlynu polisi plant ar draws y llywodraeth a sicrhau bod hawliau plant yn parhau'n flaenoriaeth ar draws pob portffolio.

Babanod, plant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed oherwydd eu nodweddion neu eu hamgylchiadau, yw'r rhai sy'n profi'r argyfwng costau byw a gwaddol y pandemig byd-eang fwyaf, ac maen nhw'n teimlo'u heffeithiau yn anghymesur. Dangosir hyn trwy'r cynnydd yr adroddir amdano mewn anawsterau iechyd meddwl, llesiant emosiynol gwaelach, canlyniadau iechyd ac addysg sy'n gwaethygu, a'r dirywiad yn y sefyllfaoedd ariannol teuluol mae plant yn eu profi yng Nghymru.

Wrth i Gynllun Plant a Phobl Ifanc newydd gael ei ryddhau ochr yn ochr ag ymateb disgwyliedig Llywodraeth Cymru i argymhellion Pwyllgor y CU, sydd i ddod cyn yr haf, rydyn ni o'r farn bod ad-drefnu'r cabinet yn gyfle delfrydol i'r Prif Weinidog nesaf ymateb yn gadarnhaol i'r lefelau aruthrol o gefnogaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru i weinidog plant penodol.

Mae ar blant angen i’r Prif Weinidog nesaf ddangos bod ei lywodraeth yn rhoi blaenoriaeth i’w hawliau. Byddai eiriolydd grymus, dynodedig penodol dros blant yn y cabinet yn gwneud llawer i ddarparu’r sicrwydd yna.

Rydyn ni’n edrych ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol.

Yn gywir

*Sean O’Neill*

| | |
|---|---|
| Hugh Russell | Sean O’Neill |
| Prif Weithredwr | Cyfarwyddwr Polisi |